Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Swyddog Merched

**Y Rôl:**

Mae Swyddog y Merched yn cynrychioli buddiannau myfyrwyr benywaidd. Mae'n rôl wirfoddol a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ochr yn ochr â'i astudiaethau. Bydd pob Swyddog etholedig yn cael hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni eu rôl, felly nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol.

Bydd y Swyddog Merched yn:

- Cynrychioli myfyrwyr benywaidd
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo diddordebau'r myfyrwyr y maent yn eu cynrychioli
- Lobio am newid ar draws y brifysgol
- Cynllunio a rhedeg ymgyrchoedd
- Mynychu cyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr a chysylltu'n rheolaidd â staff allweddol

| Sgiliau y byddwch yn eu datblygu: | Cyfleoedd a buddion: |
|---|---|
| • Arweinyddiaeth<br>• Cyfathrebu<br>• Sgiliau trefniadol<br>• Sgiliau gwrando a rhyngbersonol<br>• Lobïo<br>• Gwaith tîm<br>• Profiad cynllunio prosiectau<br>• Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd | • Hyfforddiant mewnol gan yr UM<br>• Cefnogaeth a mentora gan staff yr UM<br>• Rhywbeth gwych i roi ar eich CV<br>• Cyfarfod pobl newydd<br>• Dod i ymwneud mwy a'r UM<br>• Cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiad myfyrwyr. |

**Cymhwysedd:**

Os ydych yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, mae hawl gennych sefyll yn etholiadau Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys israddedigion yn ogystal â phob myfyriwr rhan-amser, myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr ôl-raddedig ac ymchwil, a myfyrwyr rhyngwladol.

**Enwebwch eich hun:** cardiffstudents.com/elections

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Etholiadau ar etholiadau@cardiff.ac.uk.